

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Fawrth 2015

Presennol – Gareth Wynne Cadeirydd, Janet Charlton, Jim Boughton, Terry Bullock, Conwy County Cynghorydd Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerk.

Ymddiheuriadau, Karen Pugh, Gwawr Jones, Meirion Owen, Gareth Parry, Marion Bettenev, Sian Godbert.

Datganiad diddordeb. Datganwyd diddordeb gan y Cynghorydd Elizabeth Roberts yng ngofnod (2.1) Costau parico, a ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth.

Darllenwyd a chmeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Chwefror 2015.

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

(1.1) Arwyddion blêr

Cytunodd y cynghorydd M Bettenev i anfon manylion trefnydd a ffair hen greiriau i'r cler.

(1.2) Cais i gynnal pont droed gorsaf drên Betws-y-coed

Dyweddodd y Cynghorydd Elisabeth Roberts mai Network Rail oedd yn gyfrifol a chynnal y bont a'i bod yn disgwyl ateb ganddynt.

(1.3) Cyhoeddiadau Awtomataidd Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed/

Yn dilyn diffyg ateb gan bencadlys trenau Arriva yng Nghaerdydd gofynnodd y Cynghorydd Roberts i'r cler gysylltu â Mr Ben Davies yn nhrenau Arriva Llandudno.

(1.4) Difrod i falconi y Neuadd Goffa

Cytunodd Y Cynghorydd J Charlton i anfon manylion y gwaith atgyweirio at y cler.

(1.5) Bryn y bont

Y cler i gysylltu â Mr Raymond Hughes i'w hysbysu y dylai wagu tu mewn a thu allan i'r tŷ erbyn diwedd mis Mawrth.

(1.6) Creu swigod / Cae Llan

Adroddodd y cler fod pryder yn parhau ynghylch creu swigod yng Nghae Llan. Y cler i hysbysu perchennog y busnes os na fydd yn cydymffurfio hefo gofynion y cyngor i warchod y .i fydd y gweithgaredd yn cael ei ganiatáu ymhellach.

Y prif faterion

(1.7) Materion cynllunio

Cais am dystysgrif defnydd cyfreithiol tir fel cwrtel i dy, Fferm Pentre Du, Betws-y-coed. Nid oedd gwrthwynebiad gan aelodau i'r cais.

(1.8) Materion ariannol

(a) Penderfynwyd cymeradwyo derbynion a thaliadau (a gylchredwyd) a wnaed yn Chwefror 2015.

(b) Fe nodwyd y tebyg yn y ffigyrau mynediad (a gylchredwyd) Rhaedr Ewynnol at ddiwedd Chwefror 2015.

(1.9) Asesiad risg

Fe nodwyd y ddogfen asesiad risg a wnaed gan y clerc. Fe benderfynwyd hefyd i archwilio'r golau tu allan i'r neuadd, a hefyd i archwilio'r system drydan yn Rhaedr Ewynnol.

(2) Diwrnod Lluoedd Arfog Gogledd Cymru / Cinio Elusennol 19eg Mehefin 2015

Penderfynwyd gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf

(2.1) Parc Cenedlaethol Eryri / Meysydd Parcio

Cyfeiriodd y clerc at y cynudd yng nghostau parcio drwy'r Parc Cenedlaethol. Nodwyd fod y maes parcio di dal yn Heol yr Orsaf yn mynd i newid i fael parcio arhosiad byr gyda'r costau canlynol: 1 awr £1.00, 2 awr £2.00, 4 awr £5.00, dros 4 awr £10.00. Parcio dros nos rhwng 6.00 p.m. a 8.00 a.m. yn £1.00. Ni fydd tocynnau parcio blynyddol ar gael.

(2.2) System gwres canolog.

(a) Penderfynwyd gosod dau wresogydd newydd yn y cyntedd ar gost o £1295.00 a taw.

(b) Dywedodd y clerc fod cytundeb cynnal a chadw blynyddol wedi ei bwrcasu i warchod rhag diffyg yn y boiler.

(2.3) Eisteddfod Llanrwst

Cytunwyd i gyfrannu £50.00.

(2.4) Sefydliad Aren Cymru / Taith am Fywyd

Dywedodd y Cynghorydd Roberts y dylai unrhyw un sydd am fod yn rhan o'r daith ddod i gae ysgol pafiliwn Dolwyddelan erbyn 11.00 y.b. ar y 26ain o Ebrill 2015.

(2.5) Materion priffyrdd

(a) Nodwyd y wybodaeth gan Aled Roberts AC parthed adolygiad o gyfyngiadau cyflymdra ar yr A5. Gellir gweld y cynllun ar wefan Llywodraeth Cymru.

(b) Y clerc i amlygu y wal gadw ar yr A5 gyferbyn a'r siop grochenwaith.

(2.6) Cwn yn baeddu Cae Llan

Cyfeiriodd y clerc at bryderon aelodau o'r tîm pêl droed lleol fod cwn yn baeddu'r cae pêl droed a diffyg goruchwyllo gan y warden. Y clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn i'r warden ymweld yn amlach.

Cadeirydd _____